Ein Stori Lawen

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 07712387203
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

3 Mai 2026
Pasg V

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Wyn Mears

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
Darllenwyr: Rhys Davies / Jayden Mahoney
Emynau: 100 (Lasst Uns Erf.); 291 (Franconia II)
ar daflen; 106 (Prysgol)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 147:1-11
Darlleniadau: Sechareia 4:1-10
Datguddiad 21:1-14
Darllenwyr: Gwynn Matthews / Rhys Jones
Emynau: 249 (Duke Street 347); 434 (Bishoptho'); 357 (Seelenbrautigam)

YN EIN GWEDDÏAU
Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Sylvia Beecher, Dilys Hicks, Cyril Edward Hughes, Eleri Hughes, Jean Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 5 Mai 2026
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 6 Mai 2026
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 10 Mai 2025
Pasg VI – Sul y Gweddïau
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

CYNGERDD AWR GINIO

Cynhelir cyngerdd yn EDS o dan nawdd Actifyddion Artistig Caerdydd dydd Mawrth 5 Mai am 1.00pm. Y pedwarawd Sacsoffon Ferio fydd yn perfformio. Chwaraeir darnau gan y cyfansoddwyr George Gershwin, Florence Price, Josie Simmonds yn rhan o'r rhaglen. Tocynnau'n £6.50 wrth y drws.

CYNGOR PLWYFOL EGLWYS

Yn dilyn Festri'r Pasg y Sul diwethaf, fe gynhelir cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig yn neuadd yr eglwys, **nos Lun 11 Mai am 7.00pm**.

DYDD IAU'R DYRCHAFAEL

Mae dydd Iau'r Dyrchafael yn syrthio ar y 14 Mai eleni. Oherwydd hyn bydd ein gwasanaeth bore Mercher yn symud o'r 13eg i fore Iau 14eg am 10.30am.

COFFI A CHLONC

Byddwn yn cynnal ein bore Coffi a Chlonc dydd Sadwrn 16 Mai yn neuadd yr Eglwys rhwng 10.30am a 12.00pm.

STONDIN CYNNYRCH CARTREF

Cynhelir Stondin Cynnyrch Cartref er budd Cymorth Cristnogol **dydd Sul 17 Mai** yn syth ar ôl y gwasanaeth 10.30am. Am ragor o wybodaeth mynnwch air â Dilys Jones neu Heulwen Jones.

ROTA BLODAU YR ALLOR

Diolch i bawb sydd wedi cytuno i roi blodau ar yr allor. Mae'r rota bellach yn llawn.

CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Cynhelir gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd nos **Fercher 13 Mai** yng nghapel Methodistaidd yr Eglwys Newydd (CF14 2AA) am 7.00pm. Mari McNeill, pennaeth Cymorth Cristnogol, fydd yn annerch y gynulleidfa. Croeso i bawb.

EGLWYSI CYTÛN DINAS CAERDYDD A'R BAE

Bydd Eglwysi Cytûn Dinas Caerdydd a'r Bae yn cynnal swper yn Valetino's Windsor Place, **nos Wener 22 Mai am 6.30pm**. Mae'r noson yn agored i bawb a bydd yn gyfle inni gyfarfod â'n cyd-Gristionogion yng nghanol y ddinas. Mae'r fwydlen yng nghefn yr Eglwys. Os hoffech ddod a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys. Neu am ragor o wybodaeth mynnwch air â Rhys Jones. Bydd angen eich enwau a'r taliad erbyn dydd Sul 17 Mai.

CYMDEITHASU MIS MAI

Bydd ein digwyddiad cymdeithasol nesaf nos Iau 28 Mai yn neuadd yr eglwys am 7.30pm pan fyddwn yn cael noson yng nghwmni Beti Williams.

GWARCHOD YR EGLWYS

Lynette Allen ac Alison Stone fydd yn gwarchod yr eglwys dydd Mercher 6 Mai.

GWEDDÏAU'R SUL

- Eglwys Unedig Gogledd India
- Ardal Gweinidogaeth De Caerdydd, y Parchedig Dean Atkins

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 4 Mai:

Actau 14:5-18; Salm 115:1-12a; Ioan 14:21-26

Gweddïwn: Esgobaeth Yambio – Talaith Eglwys Esgobol De Swdan

Ardal Gweinidogaeth Gorllewin Caerdydd, y Parchedig Andrew Sully, arweinydd

Dydd Mawrth 5 Mai: Asaff

Actau 14:19-27; Salm 145:10-13, 22; Ioan 14:27-31a

Gweddïwn dros: Esgobaeth Yangon – Eglwys Talaith Myanmar (Burma)

Ardal Gweinidogaeth Gogledd Caerdydd, y Parchedig Ganon Elaine Jenkyns, arweinydd

Dydd Mercher 6 Mai:

Actau 15:1-6; Salm 122; Ioan 15:1-8

Gweddïwn dros: Esgobaeth Yei, Talaith Eglwys Anglicanaidd De Swdan

Ardal Gweinidogaeth Taff Wenallt, y Parchedig Theresa Parker, arweinydd

Dydd Iau 7 Mai:

Actau 15:7-21; Salm 96:1-3, 10-13; Ioan 15:9-11

Gweddïwn dros: Esgobaeth Yeri - Talaith Eglwys Anglicanaidd De Swdan

Llys Esgob, y Gwir Barchedig Mary Stallard (Esgob), y Parchedig Emma Ackland (Caplan)

Dydd Gwener 8 Mai: Julian o Norwich

Eseia 15:22-31; Salm 57:5-11; Ioan 15:12-17

Gweddïwn dros: Esgobaeth Yewa – Eglwys Anglicanaidd Nigeria

Deoniaeth Eglwysilan, y Deon Bro, y Parchedig Gary Powell.

Dydd Sadwrn 9 Mai: Gregor o Nazianus

Actau 16:1-10; Salm 100; Ioan 15:18-21

Gweddïwn dros: Esgobaeth Yirol – Talaith Eglwys Esgobol De Swdan

Ardal Gweinidogaeth Taf Rhymni, y Parchedig Rajiv Sidhu, arweinydd